

## 2017 Rhif 122 (Cy. 40)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477  
(Cyffordd Old Amroth Road, Sir  
Benfro i Fan i'r Dwyrain o Lan-teg,  
Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau  
Traffig Dros Dro a Dim  
Goddiweddyd) 2017

*Gwnaed*

*1 Chwefror 2017*

*Yn dod i rym*

*6 Chwefror 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.**Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2017. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Old Amroth Road, Sir Benfro i Fan i'r Dwyrain o Lan-teg, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 6 Chwefror 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o'r gefnffordd yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

## **Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Llan-teg, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 MYA a 50 MYA) 2004<sup>(3)</sup> drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

**7.** (1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Dyddiedig                      01 Chwefror 2017

*Nina Ley*  
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

(3) O.S. 2004/162 (Cy. 17).

## **ATODLEN 1**

### **HYD A LLED Y TERFYNAU CYFLYMDER 40** **MYA A 10 MYA DROS DRO A'R** **GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD**

1. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (yr C3185), Old Amroth Road, hyd at bwynt 2.7 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 3.5 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (yr C3185), Old Amroth Road, hyd at bwynt 4.3 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## **ATODLEN 2**

### **HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 10** **MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD AR** **ODDIWEDDYD**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.7 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (yr C3185), Old Amroth Road, hyd at bwynt 3.5 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.